Estynnwn groeso cynnes i'r plant canlynol sydd wedi ymuno â ni ers Ionawr, Sarah Atterbury, Tomos Fanning, Gruffudd Lewis a Rhys Morgan.

Treuliodd plant blwyddyn 1 a 2 fore difyr iawn yn Theatr y Castell Aberystwyth yn ddiweddar yn gweld perfformiad cwmni'r Arad Goch o 'Tua'r nef yn fy mhoced'. Roedd hwn yn wahanol iawn i'r arferol ac yn brofiad newydd i'r plant. Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach daeth aelodau'r cwmni i'r ysgol i gynnal gweithdai gyda'r plant a bu'r rhain hefyd yn hynod o ddiddorol gan roi cyfle i'r plant ddefnyddio'u dychymyg i'r eithaf.

O ganlyniad i dywydd rhewllyd yr wythnosau diwethaf mae'r timau hoci a phêl-droed wedi bod yn fwy segur nag arfer. Er hynny fe gafwyd ambell gêm ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at y gweddill sydd i'w chwarae yng nghwrs y tymor.

Cynhaliwyd pwyllgor o Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol ddiwedd Ionawr a phenderfynwyd cynnal Ras Hwyaid i godi arian yn ystod y tymor.